

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA532 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015

Gweithdrefn: Y Weithdrefn Uwchgadarnhaol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) yn darparu un Ddeddf sy’n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella llesiant y bobl hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt, a’r gofalwyr hynny y mae angen cymorth arnynt.

Mae’r Rheoliadau yn nodi’r prawf y mae’n rhaid i awdurdod lleol ei gymhwyso i ddyfarnu a oes gan unigolyn, y mae ei anghenion wedi eu nodi mewn asesiad a gynhaliwyd gan awdurdod lleol, yr hawl i gael yr anghenion hynny wedi eu diwallu gan awdurdod lleol. Mae’r Rheoliadau’n nodi’r prawf sydd i’w gymhwyso mewn perthynas ag oedolion, plant a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr sy’n blant).

1. Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2.

2. Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn ar gyfer cyflwyno adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â’r offeryn drafft hwn (sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad).

- (i) Mae’r Rheoliadau hyn wedi’u gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn ‘uwchgadarnhaol’.
- (ii) Mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymhwyso meini prawf cymhwysedd cenedlaethol i benderfynu ar eu dyletswydd i ddiwallu anghenion penodol. Ar gyfer oedolion, bydd hyn yn dileu’r trothwy traddodiadol ar gyfer cael mynediad at ofal a chymorth a reolir. Mae’r Memorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd â’r Rheoliadau yn nodi y bydd hyn yn sicrhau ymateb mwy pwrpasol ac ymatebol i bob unigolyn.

- (iii) Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymhwyso meini prawf cymhwysedd cenedlaethol i benderfynu ar eu dyletswydd i ddiwallu anghenion plant o ran gofal a chymorth. Mae hyn yn wahanol i ddull gweithredu Deddf Plant 1989 sy'n cynnwys diffiniad o blentyn mewn angen ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant o'r fath. Bydd cymhwystra plentyn yn llifo o'r broses asesu.
- (iv) O dan y Ddeddf, mae dyletswydd ar awdurdod lleol i gynnal asesiad o anghenion gofalwr – gan gynnwys gofalwr sy'n blentyn – pan ymddengys i'r awdurdod fod angen cymorth ar y gofalwr. Bydd dyletswydd ar awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion a nodir pan maent yn bodloni'r meini prawf cenedlaethol.
- (v) Bydd yr Aelodau am nodi bod y Rheoliadau'n nodi'r prawf y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei gymhwyso wrth benderfynu a oes gan unigolyn anghenion y mae'n rhaid eu diwallu. Bydd y Cod Ymddygiad, a bennir o dan adran 145 o'r Ddeddf, yn atodol i'r Rheoliadau. Mae'r Cod hwn yn annog awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswyddau i ddarparu neu drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol, hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr a'r trydydd sector, a darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn lleihau nifer yr unigolion y bydd angen cynllun gofal a chymorth arnynt.

3. Ymateb y Llywodraeth

Adran 2, para (iii)

Gallai'r defnydd o'r term 'cyferbynnu' ('contrasts') roi'r argraff nad yw'r Ddeddf na'i hofferynnau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu a hybu lles plentyn unigol sydd mewn angen. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r rheoliadau yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer plant, gan gynnwys gofalwyr sy'n blant. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion plant ac i ddiwallu'r anghenion hynny pan allant gael eu diwallu drwy ofal a chymorth.

Mewn cysylltiad â diogelu, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn glir ynghylch y ddyletswydd i ddiogelu ac mae'r ddyletswydd yn gymwys i blant unigol y mae eu hanghenion wedi eu hasesu. Yn benodol, mae adran 37(3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn y plentyn rhag cael, neu rhag risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu rhag cael, neu rhag risg o gael, ei niweidio mewn modd arall. At hynny, mae rheoliad 4(1) yn atgyfnerthu'r pwynt hwn drwy nodi'r anghenion am ofal a chymorth sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra wrth gyfeirio at blant. Ceir rhagor o ganllawiau ar hyn yn y Cod Ymarfer ar Ran 3 o'r Ddeddf.

Bydd dyletswyddau i ddiogelu ac amddiffyn plant yn cael eu cyflawni'n llawn oherwydd bydd adran 47 o Ddeddf Plant (1989) yn aros.

Adran 2, para (v)

Mae'r paragraff yn dweud bod y rheoliadau yn nodi prawf cymhwysra ond nad ydynt yn nodi'r meini prawf cymhwysra cenedlaethol. Fodd bynnag, fel y mae'r Nodyn Esboniadol yn ei nodi, "mae rheoliadau 3, 4 a 5 yn nodi'r meini prawf cymhwysra". Ceir manylion pellach am hyn yn y Cod Ymarfer ar Ran 4 o'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau yn nodi'r meini prawf cymhwysra drwy ddisgrifio'r anghenion hynny sy'n bodloni'r meini prawf hynny (ar wahân i oedolion, plant a gofalwyr). Mae'r adroddiad ar ragoriaethau yn awgrymu bod y meini prawf gwirioneddol sydd i gael eu cymhwyso wedi eu rhoi yn y cod ymarfer a ddyroddir o dan a.145. Nid yw hyn yn wir, y meini prawf cymhwysra yw'r profion a nodir yn y rheoliadau hyn.

Bydd y cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 o'r Ddeddf yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ataliol, hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector ac i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Un effaith y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 4: Diwallu Anghenion fydd annog ymhellach awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau i'r perwyl hwn gan leihau, drwy hynny, nifer yr unigolion y bydd yn ofynnol iddynt gael cynllun gofal a chymorth.

4. Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn hwn yn ei gyfarfod ar 1 Mehefin 2015 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd yn adran 2 uchod.